# Cyngor Sir Ceredigion

## Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2024

### Er mwyn bodloni Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

### Rheoli'r Ansawdd Aer yn Lleol

Dyddiad: Tachwedd 2024

| Gwybodaeth | Manylion |
|---|---|
| **Swyddog yr Awdurdod Lleol** | Elis Gwyn |
| **Adran** | Diogelu'r Cyhoedd |
| **Cyfeiriad** | Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE |
| **Ffôn** | 01545 570881 |
| **E-bost** | elis.gwyn@ceredigion.gov.uk |
| **Cyfeirnod yr Adroddiad** | CCC/AQ/2024 |
| **Dyddiad** | 12/11/2024 |

# Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn ein Hardal ni

## Ansawdd Aer yng Ngheredigion

Mae’r Adroddiad Cynnydd hwn ar y Strategaeth Ansawdd Aer yn cadarnhau, fel yn y blynyddoedd blaenorol, y cydymffurfiwyd yn 2023 â'r **holl Safonau ac Amcanion statudol sy’n ymwneud ag ansawdd aer**, a hynny ym mhob lleoliad yng Ngheredigion. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, felly, ni ystyrir ei bod yn angenrheidiol symud ymlaen i gynnal asesiadau manylach o’r ansawdd aer yng Ngheredigion, na chwaith i ddatgan unrhyw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.

Prif ffynhonnell llygredd aer yng Ngheredigion yw allyriadau cerbydau o rwydwaith ffyrdd y sir. Mae economi'r sir hefyd yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth, gyda phoblogaeth y sir yn dyblu yn ystod gwyliau haf yr ysgolion, gan arwain at gynnydd mewn allyriadau cerbydau. Er gwaethaf hyn, mae'r tueddiadau a fesurwyd yn y blynyddoedd diwethaf o ran $NO_2$ ar i lawr mewn lleoliadau “prysur” yn y sir, heb yr un achos o fynd y tu hwnt (ac yn groes) i’r safonau mewn unrhyw leoliad (gan gynnwys wrth ymyl y ffordd a’r lleoliadau yr ystyrir eu bod y rhai “gwaethaf”).

Roedd gwaith modelu data a gynhaliwyd gan DEFRA yn dangos bod cyfartaledd blynyddol o lai na 13µg/m3 o $PM_{10}$ yn aer Ceredigion yn 2023. Roedd hyn yn cynnwys ein tref brysuraf, sef Aberystwyth. Mae llygredd aer yng Ngheredigion, yn arbennig o ran nitrogen deuocsid a $PM_{10}$, yn parhau i fod ymysg yr isaf yng Nghymru.

## Camau i Wella Ansawdd Aer

Nid oedd y data monitro a gasglwyd ar gyfer 2023 wedi nodi unrhyw ofyniad i gynnal asesiad manwl nac i ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn parhau i fonitro ansawdd aer yr ardal ac yn adolygu'r data a gesglir yn barhaus er mwyn penderfynu a oes angen cymryd camau gweithredu mewn ymateb.

## Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Mae tuedd gyffredinol crynodiadau $NO_2$ yng Ngheredigion wedi bod yn mynd tuag i lawr yn y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, dylid nodi bod pandemig COVID-19 wedi peri heriau wrth gasglu’r data yn yr ystyr nad oedd modd casglu’r tiwbiau tryledu am fisoedd lawer yn ystod y

cyfnodau monitro. Golygai hyn fod yn rhaid defnyddio data a gasglwyd o ddau safle monitro parhaus yn Sir Benfro a Swydd Amwythig fel rhan o'r weithdrefn flynyddol o gasglu data ar gyfer 2020 a 2021. Roedd y data a gasglwyd yn 2022 wedi canfod bod y lleoliadau monitro wedi gweld lleihad o 20% yng nghrynodiad cyfartalog (cymedr) blynyddol $NO_2$ o gymharu â 2021. Dylid nodi mai hon oedd y flwyddyn gyntaf pan oedd modd casglu data lleol yn llawn unwaith eto.  Gallai hyn awgrymu fod y drefn flynyddol yn 2020 a 2021 wedi arwain at rifau uwch na'r arfer yn y lleoliadau monitro.

Felly pwyslais adroddiad eleni oedd gweld a fyddai'r duedd tuag i lawr o ran  crynodiadau $NO_2$ yn parhau neu a oedd y gostyngiad mewn lefelau a welwyd rhwng 2021 a 2022 wedi cael ei ddylanwadu gan y weithdrefn flynyddol y bu'n rhaid ei gweithredu ar gyfer y data yn y blynyddoedd blaenorol. Nid oedd data 2023 wedi gweld parhad yn y duedd tuag i lawr ar gyfer crynodiadau cyfartalog $NO_2$, a dim ond amrywiadau bychan (i fyny ac i lawr) a welwyd ym mhob lleoliad.

Gan fod pob un o'r lleoliadau monitro yn cydymffurfio'n dda iawn â'r safonau cyfreithiol, blaenoriaeth arall ar gyfer Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2024 oedd sefydlu lleoliadau monitro newydd y nodwyd eu bod mewn mwy o beryg o ddioddef tagfeydd traffig. Sefydlwyd un lleoliad monitro newydd yn Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth sydd â thagfeydd yn ddyddiol wrth y ddwy ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd yn y cyffiniau pan fydd plant yn cael eu hebrwng a'u casglu gan eu rhieni a'r bysiau ysgol. Yr ail leoliad monitro newydd a sefydlwyd oedd Llanon y nodwyd ei fod mewn mwy o beryg o ddioddef tagfeydd traffig  yn sgil cefnffordd brysur yr A487 sy'n rhedeg drwy'r pentref, yn debyg i Dalybont sef y lleoliad â'r crynodiadau cyfartalog uchaf o $NO_2$ yn 2021 a 2022.

Yn 2023 canfuwyd mai lleoliadau monitro Stryd Fawr Llambed a Thalybont oedd â'r crynodiadau blynyddol cyfartalog uchaf o $NO_2$ sef 16.3µg/m3 ac 16.2µg/m3, yn y drefn honno. Roedd hyn ychydig yn is na'r cymedr uchaf o 17.2 µg/m3 a gofnodwyd yn Nhalybont yn 2022. Mae'n debygol mai'r rhesymau pam y mae gan y lleoliadau hyn y gyfartaledd uchaf yw bod Llambed yn dref sy'n cael tagfeydd traffig o bryd i'w gilydd, ac yn Nhalybont mae Cefnffordd brysur yn mynd drwy'r pentref a ddefnyddir gan bobl sy'n teithio i'r gwaith yn Aberystwyth, gan lorïau trwm sy'n teithio drwy'r sir a'r ymwelwyr sy'n ymweld â'r sir dros yr haf. Mae'r crynodiadau yma'n parhau i fod ymhell o fewn y terfynau statudol a byddwn yn cadw golwg ar y safleoedd hyn yn y dyfodol i weld eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith.

## Sut i Gymryd Rhan

Gall y cyhoedd gael rhagor o wybodaeth am ansawdd aer drwy gysylltu ag awdur yr adroddiad.

## Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn ein Hardal ni....i**

**Ansawdd Aer yng Ngheredigion ....i**

Camau i Wella Ansawdd Aer ....i

Blaenoriaethau a Heriau Lleol ....i

Sut i Gymryd Rhan ....ii

**1 Camau i Wella Ansawdd Aer ....1**

1.1 Gwaith Blaenorol mewn Perthynas ag Ansawdd Aer ....1

1.2 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ....2

1.3 Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar waith ....3

**2 Data Monitro Ansawdd Aer a Chymharu â'r Amcanion Ansawdd Aer ....4**

2.1 Crynodeb o'r Monitro a Wnaed yn 2023....4

2.1.1 Safleoedd Monitro Awtomatig....4

2.1.2 Safleoedd Monitro Anawtomatig....4

....15

2.2 Canlyniadau Monitro Ansawdd Aer 2023 ....20

2.3 Cymharu Canlyniadau Monitro 2023 â'r Blynyddoedd Blaenorol a'r Amcanion Ansawdd Aer.... 23

2.3.1 Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) .... 23

2.3.2 Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$) .... 24

2.3.3 Deunydd Gronynnol ($PM_{2.5}$).... 24

2.4 Crynodeb o'r Gydymffurfiaeth ag Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer o 2023 ymlaen 24

**3 Datblygiadau Lleol Newydd....25**

3.1 Ffynonellau Traffig Ffyrdd (a mathau eraill o Drafnidiaeth)....25

3.2 Ffynonellau Diwydiannol / sy'n Ffoi neu heb eu Rheoli/ Ffynonellau Masnachol ....25

3.3 Ffynonellau Eraill ....25

**4 Polisïau a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd a Gludir yn yr Aer....26**

4.1 Strategaeth Ansawdd Aer Leol / Ranbarthol ....26

4.2 Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer ....26

4.3 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol....27

4.4 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol....28

4.5 Amcanion Llesiant Awdurdodau Lleol ....28

4.6 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd ....29

**5 Casgliad a Chamau Gweithredu Arfaethedig....32**

5.1 Casgliadau o'r Data Monitro Newydd....32

5.2 Casgliadau yn ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd ....32

5.3 Casgliadau Eraill....32

5.4 Camau Gweithredu Arfaethedig....33

**Cyfeiriadau** .......... **34**
**Atodiadau** .......... **34**
**Atodiad A: Canlyniadau Monitro Tiwbiau Tryledu Misol** .......... **35**
**Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol** .......... **38**
Pwrpas Adroddiad Cynnydd Blynyddol .......... 38
Amcanion Ansawdd Aer .......... 38
**Atodiad C: Data Monitro Ansawdd Aer - Sicrhau/Rheoli Ansawdd** .......... **40**
Sicrhau/Rheoli Ansawdd o ran Monitro Tiwbiau Tryledu .......... 40
Blwyddoli Tiwbiau Tryledu .......... 41
Ffactorau Addasu ar gyfer Tuedd yn y Tiwbiau Tryledu .......... 41
Gostyngiad $NO_2$ gyda phellter o'r ffordd .......... 42
**Rhestr Termau** .......... **45**

## Tablau

Tabl 2.1 – Manylion y Safleoedd Monitro Anawtomatig

Tabl 2.2 – Canlyniadau Monitro Cymedr Blynyddol $NO_2$

Tabl A.1 – Canlyniadau Misol Llawn y Tiwbiau Tryledu ar gyfer 2023

Tabl B.1 – Amcanion Ansawdd Aer sydd wedi'u Cynnwys yn y Rheoliadau at Ddiben Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol yng Nghymru

## Ffigurau

Ffigur 2.1 – Mapiau o Safleoedd Monitro Anawtomatig

Ffigur 2.2 – Tueddiadau mewn Crynodiadau Cyfartalog Blynyddol $NO_2$

# 1 Camau i Wella Ansawdd Aer

## 1.1 Gwaith Blaenorol mewn Perthynas ag Ansawdd Aer

Mewn Adroddiadau Cynnydd blaenorol ar y Strategaeth Ansawdd Aer, sefydlwyd nad oedd yr un achos o fynd y tu hwnt (ac yn groes) i'r safonau ansawdd aer ar gyfer unrhyw un o'r prif lygryddion aer a nodir yn y Rheoliadau, a hynny mewn unrhyw leoliad yng Ngheredigion (gan gynnwys wrth ymyl ffyrdd lle ceir tagfeydd). At hynny, ni ragwelir achosion o fynd y tu hwnt i'r safonau yn y dyfodol ar sail y tueddiadau a welwyd a'r rhagolygon a fodelwyd.

Defnyddiwyd rhestr wirio ac offer sgrinio yn hanesyddol i nodi ffynonellau posibl o lygredd aer yn y sir dros nifer o flynyddoedd. Mae'r holl ffynonellau posibl o lygredd aer a awgrymir yn y Canllawiau Technegol wedi cael eu hystyried, a barnwyd bod dim ond angen monitro $NO_2$ yn barhaus. Caiff lleoliadau monitro eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â materion a datblygiadau newydd fel yr argymhellir yn y canllawiau ac ati. Cyflwynwyd yr Adroddiad Cynnydd diwethaf ar gyfer Ceredigion yn 2023 ac fe gafodd ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru fel un oedd yn cyfleu cyflwr ansawdd aer Ceredigion yn gywir. Roedd y canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r amcanestyniadau cenedlaethol.

Nid oes ffynonellau sylweddol o lygredd aer diwydiannol yng Ngheredigion – mae datblygiadau diwydiannol, ffyrdd a datblygiadau eraill yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith gymharol isel o ran ansawdd aer.

Adroddwyd mewn Adroddiad Cynnydd blaenorol (gan ddefnyddio data a fodelwyd gan DEFRA ar gyfer 2015) fod crynodiadau amcangyfrifedig PM2.5 yn agos at safon yr Alban o 10µg/$m^3$ (hefyd safonau canllaw Sefydliad Iechyd y Byd) mewn rhai lleoliadau wrth ymyl y ffordd lle ceir tagfeydd ym mhrif dref Aberystwyth. Fodd bynnag, roedd canlyniadau a fodelwyd gan DEFRA mewn lleoliadau wrth ymyl y ffordd yn Aberystwyth yn 2018 yn is (rhwng 6 ac 8µg/$m^3$). Mae hyn yn well na safonau canllaw gorfodol yr Alban a Sefydliad Iechyd y Byd. Mae PM2.5 yn baramedr pwysig sy'n gysylltiedig ag iechyd, ac mae safonau gorfodol yr Alban a safonau canllaw Sefydliad Iechyd y Bydd yn llym byddai'n anodd eu cyrraedd mewn rhai lleoliadau wrth ymyl y ffordd yn y DU.

Ni ystyriwyd bod angen datgan ardal rheoli ansawdd aer o gwbl yng Ngheredigion, na chwaith fod angen datblygu cynlluniau gweithredu i wella ansawdd aer yn y sir. Ni fu datblygiadau newydd arwyddocaol yn y sir yn 2023 (diwydiant ac ati) a gafodd effaith sylweddol ar ansawdd aer. Mae Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol, Cynllun Rheoli Carbon a Strategaethau Datblygu

Economaidd a Chynllunio yn cydnabod pwysigrwydd ansawdd aer ac yn ceisio cyfyngu neu leihau effaith allyriadau lleol yn y sir.

## 1.2 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer

Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu datgan pan fydd ansawdd aer yn agos at neu uwchlaw lefel dderbyniol o lygredd (a elwir yn amcan ansawdd aer (gweler Atodiad B)). Ar ôl datgan Ardal Reoli, mae'n rhaid i'r awdurdod baratoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer o fewn 18 mis yn nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith i wella ansawdd aer. Mae awdurdodau lleol yn gweld Ardaloedd Rheoli fel canolbwynt ar gyfer sianelu adnoddau tuag at yr ardaloedd lle mae'r llygredd mwyaf.

Nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer nac unrhyw leoliadau yn y sir lle mae crynodiadau llygryddion aer yn uwch na/ yn agos at y safonau/ amcanion cenedlaethol. Ni fu angen, felly, i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer na chwaith Strategaeth Ansawdd Aer.

## 1.3 Rhoi Cynlluniau Gweithredu ar waith

Nid oes Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yng Ngheredigion. Ni fu angen datblygu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu na chwaith gynhyrchu Strategaeth Ansawdd Aer.

# 2 Data Monitro Ansawdd Aer a Chymharu â'r Amcanion Ansawdd Aer

## 2.1 Crynodeb o'r Monitro a Wnaed yn 2023

### 2.1.1 Safleoedd Monitro Awtomatig

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw safleoedd monitro awtomatig yng Ngheredigion.

### 2.1.2 Safleoedd Monitro Anawtomatig

Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion waith monitro $NO_2$ yn anawtomatig (yn oddefol) mewn 13 o leoliadau yn ystod 2023. Mae Tabl 2.1 yn rhoi manylion y safleoedd.

Darperir mapiau sy'n dangos lleoliadau'r safleoedd monitro yn Ffigur 2.1. Mae rhagor o fanylion ynghylch Sicrhau Ansawdd/Rheoli Ansawdd, ac addasu ar gyfer tuedd ar gyfer y tiwbiau tryledu, wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

**Tabl 2.1 – Manylion y Safleoedd Monitro Anawtomatig**

| Enw'r safle | Math o safle | Yn gysylltiedig ag Ardal Reoli a enwir? | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans X | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans Y | Uchder y safle (m) | Wedi'i gydleoli â dadansoddwr parhaus? | Pellter o'r monitor i'r cysylltiad perthnasol agosaf â'r aer (m) (1) | Pellter o'r cyrb i'r monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd y Môr, Aberystwyth | Canolfan drefol | Amh. | 258470 | 281700 | 2.5 | Na | 1 | 1 |
| Stryd Thespis, Aberystwyth | Canolfan drefol | Amh. | 258630 | 281800 | 2.5 | Na | 10 | 1 |
| Yr Orsaf Reilffordd, Aberystwyth | Canolfan drefol | Amh. | 258500 | 281620 | 2.5 | Na | 1 | 1 |
| Cylchfan Morrisons, Aberystwyth | Wrth ymyl y ffordd | Amh. | 259590 | 280570 | 1.5 | Na | 200 | 1 |
| Dan Dre, Aberystwyth | Diwydiannol | Amh. | 258379 | 281519 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan | Canolfan drefol | Amh. | 257790 | 248140 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Stryd Fawr, Aberteifi | Canolfan drefol | Amh. | 217790 | 246180 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Stryd y Cei, Aberteifi | Canolfan drefol | Amh. | 217661 | 245959 | 1.5 | Na | 1 | 1 |
| Pendam | Gwledig | Amh. | 272240 | 283330 | 1.5 | Na | 500 | 1 |
| Talybont | Wrth ymyl y ffordd | Amh. | 265462 | 289275 | 1.5 | Na | 1 | 1 |

| Enw'r safle | Math o safle | Yn gysylltiedig ag Ardal Reoli a enwir? | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans X | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans Y | Uchder y safle (m) | Wedi'i gydleoli â dadansoddwr parhaus? | Pellter o'r monitor i'r cysylltiad perthnasol agosaf â'r aer (m) (1) | Pellter o'r cyrb i'r monitor (m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Stryd Fawr, Aberystwyth | Canolfan drefol | Amh. | 258230 | 281631 | 1.5 | Na | 1 | 3 |
| Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth | Wrth ymyl y ffordd | Amh. | 259514 | 281258 | 1.5 | No | 5 | 1 |
| Llanon | Wrth ymyl y ffordd | Amh. | 251574 | 267060 | 1.5 | No | 5 | 1 |


**Nodiadau:**

(1) Mae 0m yn nodi bod y monitor a leolir yn cynrychioli'r cysylltiad â'r aer ac felly nid oes angen cyfrifo pellter.


**Ffigur 2.1 – Mapiau o Safleoedd Monitro Anawtomatig**




# Ffordd y Môr, Aberystwyth





**Stryd Thespis, Aberystwyth**





## Yr Orsaf Reilffordd, Aberystwyth





**Cylchfan Morrisons, Aberystwyth**





## Dan Dre, Aberystwyth




**Stryd Fawr, Aberteifi**





**Stryd y Cei, Aberteifi**




## Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan


Track
372m
Mynydd March
Pen y Bryn-mawr
Car Park
Path
Workings (dis)
Pit (dis)
Workings (dis)
Shafts
Llyn Pendam
Llyn Blaenmelindwr
Track
387m
Path
Track
Path
Drain
Standing Stone
Path
Path
Buwch a'r Llo Standing Stones
Standing Stone
Nant Geifaes
Banc Llety-Spence
406m
Banc Trawsnant
402m
371m
Llyn Rhosgoch
Track


## Pendam





## Talybont




**Y Stryd Fawr, Aberystwyth**




**Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth**




## Llanon

## 2.2 Canlyniadau Monitro Ansawdd Aer 2023

### Tabl 2.2 – Canlyniadau Monitro Cyfartalog Blynyddol (µg/m$^3$)

| Enw'r safle | Math o safle | Math o fonitro | Cipio data dilys ar gyfer y cyfnod monitro (%) (1) | Cipio data dilys 2023 (%) (2) | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd y Môr, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | 17.5 | 19.6 | 16.3 | 20.4 | 15.6 |
| Stryd Thespis, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | 21.5 | 18.3 | 15.8 | 20.3 | 15.8 |
| Yr Orsaf Reilffordd, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | 23.3 | 20.3 | 17.0 | 20.7 | 15.1 |
| Cylchfan Morrisons, Aberystwyth | Wrth ymyl y ffordd | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | 18.4 | 17.5 | 13.8 | 16.6 | 12.7 |
| Dan Dre, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | 18.6 | 18.9 | 16.5 | 22.2 | 15.3 |
| Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | 21.2 | 15.6 | 15.0 | 16. 2 | 12.9 |
| Stryd y Cei, Aberteifi | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | Amh. | Amh. | 10.1 | 8.2 | 6.4 |
| Stryd Fawr, Aberteifi | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | 16.4 | 18.4 | 17.7 | 16.6 | 13.0 |
| Talybont | Wrth ymyl y ffordd | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | Amh. | Amh. | Amh. | 24.5 | 17.2 |
| Y Stryd Fawr, Aberystwyth | Canolfan drefol | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | Amh. | Amh. | Amh. | 12.7 | 9.8 |
| Pendam | Gwledig | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | Amh. | Amh. | 2.8 | 2.4 | 1.9 |
| Llanbadarn Road, Aberystwyth | Wrth ymyl y ffordd | Tiwb Tryledu | 92 | 100 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 13.0 |
| Llanon | Wrth ymyl y ffordd | Tiwb Tryledu | 100 | 100 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 8.3 |

**Nodiadau:**

Dangosir **mewn print trwm** achosion o fynd dros yr amcan cyfartalog blynyddol o 40µg/m3 ar gyfer $NO_2$.


Mae cymedrau blynyddol $NO_2$ sy'n fwy na 60µg/m3, gan fynd yn uwch o bosib nag amcan cymedr $NO_2$ dros 1 awr, yn cael eu dangos mewn **<u>print trwm ac wedi'u tanlinellu.</u>**

Mae'r cymedrau ar gyfer tiwbiau tryledu wedi'u cywiro ar gyfer tuedd. Mae pob cymedr wedi'i "flwyddoli" yn unol â RhAALI.TG16 os yw'r data dilys a gasglwyd ar gyfer y flwyddyn galendr lawn yn llai na 75%. Gweler Atodiad C am fanylion.

(1) Cipio data ar gyfer y cyfnod monitro, mewn achosion lle cafodd gwaith monitro ei wneud yn ystod rhan o'r flwyddyn yn unig.

(2) Cipio data ar gyfer y flwyddyn galendr lawn (e.e. os cafodd gwaith monitro ei wneud am 6 mis, yna 50% yw uchafswm y data a gasglwyd ar gyfer y flwyddyn galendr lawn).

**Ffigur 2.2 – Tueddiadau mewn Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ (µg/m$^3$)**



## 2.3 Cymharu Canlyniadau Monitro 2023 â'r Blynyddoedd Blaenorol a'r Amcanion Ansawdd Aer

Yn ystod 2023, casglodd Cyngor Sir Ceredigion ddata tiwbiau tryledu ar gyfer $NO_2$ mewn 13 o leoliadau (gan gynnwys y safle gwledig, Pendam, a'r lleoliadau monitro newydd yn Ffordd Llanbadarn Aberystwyth a Llanon). Mae manylion y safleoedd i'w gweld yn Nhabl 2.1- 'Manylion Safleoedd Monitro Anawtomatig' gyda mapiau o bob safle yn Ffigur 2.1- 'Safleoedd Monitro Anawtomatig'.

Rhoddir cymhariaeth o ddata 2023 mewn perthynas â'r blynyddoedd blaenorol yn Nhabl 2.2 – 'Canlyniadau Monitro Cymedr Blynyddol $NO_2$ ', ac fe'i dangosir yn Ffigur 2.2 - 'Tueddiadau mewn Crynodiadau Cymedr Blynyddol $NO_2$ '. Rhoddir dadansoddiad o'r data misol a gasglwyd yn 2023 yn Nhabl A.1 - 'Canlyniadau Tiwbiau Tryledu Misol Llawn ar gyfer 2023'.

### 2.3.1 Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)

Llwyddwyd i gasglu data dilys 100% ar gyfer y rhan fwyaf o'r lleoliadau monitro ac eithrio Stryd Fawr Llambed (84%), Pendam (92%) a Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth (92%). Roedd cipio llawer o ddata yn golygu nad oedd yn rhaid defnyddio trefn flwyddoli yn 2023, yn wahanol i'r ddwy flynedd flaenorol. Yn 2020 y dechreuwyd monitro $NO_2$ yn Nhal-y-bont a'r Stryd Fawr, Aberystwyth, ac yn 2023 y dechreuwyd monitro ar Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth ac yn Llanon, a dyna pam nad oes data i'w weld cyn y cyfnodau hyn yn Nhabl 2.2.

Nid oedd y data crynodiad cymedr blynyddol a gofnodwyd ar gyfer $NO_2$ yn ystod 2023 ym mhob un o'r lleoliadau monitro, fel y'i cyflwynir yn Nhabl 2.2, yn uwch na'r amcan cymedrig blynyddol o 40µg/m3 $NO_2$ (gweler Atodiad B). Roedd hyn yn cynnwys y safleoedd monitro newydd yn Ffordd Llanbadarn Aberystwyth a Llanon.

Fel y dangosir yn Ffigur 2.2, ac eithrio data 2021, mae'r crynodiadau cymedr blynyddol o $NO_2$ a gafodd eu monitro ym mhob lleoliad monitro wedi gweld gostyngiad graddol cyffredinol heb i ymyriadau ar ffurf Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gael eu gweithredu. Nid oedd y data cymedr blynyddol o 2023 yn gyson â'r duedd hon tuag i lawr, ond roedd yr amrywiad mewn crynodiadau a welwyd yn 2022 yn fach ac ymhell o fewn y terfynau cyfreithiol.

Yn 2023 canfuwyd mai lleoliadau monitro Stryd Fawr Llambed a Thalybont oedd â'r crynodiadau blynyddol cyfartalog uchaf o $NO_2$ sef **16.3µg/m3** ac **16.2µg/m3**, yn y drefn honno. Roedd hyn ychydig yn is na'r cymedr uchaf o 17.2 µg/m3 a gofnodwyd yn Nhalybont yn 2022. Mae'n debygol mai'r rhesymau pam y mae gan y lleoliadau hyn y gyfartaledd uchaf yw bod Llambed yn dref sy'n cael tagfeydd traffig o bryd i'w gilydd, ac yn Nhalybont mae Cefnffordd

gymharol brysur yn mynd drwy'r pentref a ddefnyddir gan bobl sy'n teithio i'r gwaith yn Aberystwyth, gan lorïau trwm sy'n teithio drwy'r sir a'r ymwelwyr sy'n ymweld â'r sir dros yr haf.

### 2.3.2 Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)

Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn monitro ar gyfer $PM_{10}$ ond roedd gwaith modelu data a gynhaliwyd gan DEFRA yn dangos bod cyfartaledd blynyddol o lai na 13µg/m3 o $PM_{10}$ yn aer Ceredigion yn 2023. Roedd hyn yn cynnwys ein tref brysuraf, sef Aberystwyth.

### 2.3.3 Deunydd Gronynnol ($PM_{2.5}$)

Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn monitro ar gyfer $PM_{2.5}$.

## 2.4 Crynodeb o'r Gydymffurfiaeth ag Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer o 2023 ymlaen

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi archwilio'r canlyniadau yn dilyn y gwaith monitro yn sir Ceredigion. Mae'r crynodiadau i gyd o fewn yr amcanion, felly nid oes angen cymryd camau pellach.

# 3 Datblygiadau Lleol Newydd

## 3.1 Ffynonellau Traffig Ffyrdd (a mathau eraill o Drafnidiaeth)

Ni nodwyd ffynonellau newydd o bwys o ran traffig ffyrdd yng Ngheredigion yn 2023, yn unol â'r canllawiau.

## 3.2 Ffynonellau Diwydiannol / sy'n Ffoi neu heb eu Rheoli/ Ffynonellau Masnachol

Ni nodwyd Ffynonellau Diwydiannol/ sy'n Ffoi neu Heb eu Rheoli/ Ffynonellau Masnachol newydd arwyddocaol yng Ngheredigion yn 2023, yn unol â'r canllawiau.

## 3.3 Ffynonellau Eraill

Ni nodwyd ffynonellau arwyddocaol newydd eraill yng Ngheredigion yn 2023, yn unol â'r canllawiau.

Heblaw am ffynonellau traffig ffyrdd, mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau nad oes unrhyw ddatblygiadau lleol newydd neu newydd-eu-nodi a allai gael effaith ar ansawdd aer yn ardal yr Awdurdod Lleol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau bod pob un o'r canlynol wedi'u hystyried:

- Ffynonellau traffig ffyrdd
- Ffynonellau trafnidiaeth eraill
- Ffynonellau diwydiannol
- Ffynonellau masnachol a domestig
- Datblygiadau newydd gyda ffynonellau sy'n ffoi neu heb eu rheoli.

# 4 Polisïau a Strategaethau sy'n Effeithio ar Lygredd a Gludir yn yr Aer

## 4.1 Strategaeth Ansawdd Aer Leol / Ranbarthol

Nid oes yr un Ardal Rheoli Ansawdd Aer wedi'i datgan yng Ngheredigion. Felly, nid oes yna Gynlluniau Gweithredu Ansawdd Aer. Gan fod Ceredigion yn sir wledig yn bennaf, mae ansawdd aer yn dda ar y cyfan ac nid oes polisïau neu strategaethau wedi'u cynhyrchu sy'n canolbwyntio'n benodol ar ansawdd aer.

## 4.2 Polisïau Cynllunio Ansawdd Aer

Mae systemau rheoli llygredd a chynllunio wedi tueddu i esblygu dros y blynyddoedd yn endidau ar wahân. Mae awdurdodiadau o dan y cyfundrefnau rheoli llygredd yn ceisio rheoli'r ffyrdd y mae prosesau rhagnodedig yn gweithredu er mwyn cyfyngu ar unrhyw lygredd a allyrrir i'r atmosffer a'i wneud yn ddiogel. Mae'r system gynllunio, fodd bynnag, yn rheoleiddio lleoliad datblygiadau a rheoli gweithrediadau er mwyn osgoi neu leihau'r effeithiau andwyol y gall unrhyw botensial am lygredd eu cael ar y defnydd o dir a'r amgylchedd, i'r graddau y gallai effeithio ar y defnydd o dir yn awr neu yn y dyfodol.

Cydnabyddir yng Ngheredigion bod cynllunio defnydd tir yn rhan bwysig o ddull integredig o gyflawni amcanion ansawdd aer a lleihau allyriadau llygryddion aer. Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion yn darparu canllawiau ar sut y dylai ceisiadau cynllunio gael eu hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Un o brif faterion y CDLl yw Mater Allweddol 6 parthed yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd. Dywed Mater Allweddol 6, “Yr angen i sicrhau bod gwasanaethau ecosystemau, yn ogystal ag ansawdd yr aer, y pridd a’r dŵr yn gyffredinol, yn cael eu gwarchod a’u gwella; gwarchod rhag llygredd sŵn a golau; a lleihau’r galw am ddŵr ac amddiffyn geoamrywiaeth leol.” Ar gyfer hyn, mae'r CDLl yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod cynllunio sicrhau na fydd datblygiad newydd yn effeithio'n negyddol ar ddŵr, aer a phridd ac nad yw'n arwain at fwy o lygredd golau a sŵn. Mae ymgynghori â'r adran Diogelu'r Cyhoedd mewn perthynas ag unrhyw gais am ddatblygiad a allai gael effaith ar ansawdd yr aer yn lleol yn rhan annatod o fynd i'r afael â'r mater allweddol hwn, boed wrth ystyried gwrthod yn llwyr neu osod amodau perthnasol i ddiogelu ansawdd yr aer yn gysylltiedig â’r datblygiad arfaethedig.

## 4.3 Cynlluniau a Strategaethau Trafnidiaeth Lleol

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru wedi cael ei lunio ar y cyd gan dri Awdurdod Lleol (ALl) Canolbarth Cymru, sef Ceredigion, Powys a Gwynedd (ar gyfer Meirionnydd). Mae'r Cynllun Trafnidiaeth yn ddogfen statudol sy'n cyd-fynd â'r CDLl. Gweledigaeth y CTLl yw i Awdurdodau Lleol Canolbarth Cymru gynllunio ar gyfer - a darparu mewn partneriaeth - system drafnidiaeth integredig a fforddiadwy yn y rhanbarth sy'n hwyluso datblygiad economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb at wasanaethau a chyfleoedd, yn cynnal ac yn gwella ansawdd bywyd cymunedol ac yn cyfrannu at reoli carbon ac ansawdd yr amgylchedd. Mae canlyniadau'r CTLl sydd o fudd i ansawdd aer yn cynnwys:

• **Gwella Iechyd a Lles drwy Gynyddu Cerdded a Beicio:** Bydd lefelau beicio a cherdded ar gyfer teithio llesol angenrheidiol a hamdden, gan drigolion ac ymwelwyr, yn cynyddu.

• **Buddion a Lleihau Effeithiau ar yr Amgylchedd:** Gwneir y mwyaf o'r potensial y bydd gwelliannau trafnidiaeth yn lleihau allyriadau carbon ac yn effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn lleol a byd-eang. Bydd effeithiau negatif wedi'u lleihau, gan gynnwys addasu i effeithiau newid hinsawdd.

Mae cyfres o ymyriadau lefel uwch wedi cael eu datblygu sydd gyda'i gilydd yn ceisio cyflawni'r canlyniadau a geisir ar gyfer y CTLl, gan gynnwys:

• **Gwella Cysylltiadau Strategol.**

• **Gwella Hygyrchedd i Gyflogaeth a Gwasanaethau.**

• **Annog Cerdded a Beicio.**

• **Rhwydweithiau Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig.**

Cynhaliwyd gwaith i gomisiynu a chyflawni Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 a hynny gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru (Cynghorau Sir Powys a Cheredigion). Bydd y Cynllun Cyflawni yn cael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn ei gyhoeddi, a'i nod yw gweithredu'n rhanbarthol y weledigaeth a nodir yn Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Hynny yw, darparu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon yng Nghymru drwy weithredu polisi rhanbarthol. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Lleol uchod ar waith hyd nes y bydd yn cael ei ddisodli gan y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd.

## 4.4 Cynlluniau a Strategaethau Teithio Llesol

Cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn 2014 gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella'n barhaus gyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr, a pharatoi mapiau yn nodi llwybrau'r presennol a llwybrau posibl i'w defnyddio yn y dyfodol. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y cam dylunio. Bwriad y Ddeddf yw galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio a theithio'n gyffredinol drwy ddulliau di-fodur. Mae gwneud cerdded a beicio yn fwy diogel ac ymarferol yn annog ffyrdd iachach o fyw, yn lleihau llygredd aer, yn lleihau sŵn, yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella'r amgylchedd.

Nod y Cynllun Teithio Llesol yng Ngheredigion yw gwella iechyd a llesiant pobl leol ac ymwelwyr drwy gynyddu cerdded a beicio. Mae gwelliannau i'r seilwaith a mentrau o ran newid ymddygiad yng Ngheredigion yn ceisio cynyddu lefelau cerdded a beicio ar gyfer teithio llesol angenrheidiol a hamdden, ac mae'n cynnwys ffactorau megis pontydd ffyrdd, llwybrau beicio, darpariaeth troedffyrdd/llwybrau troed, llwybrau diogel i'r ysgol, cynlluniau teithio yn ogystal â mesurau diogelwch ffyrdd i gynorthwyo defnyddwyr bregus. Cyflwynodd Cyngor Sir Ceredigion ei fapiau llwybrau i Lywodraeth Cymru yn 2015 ac roedd y rhain yn nodi rhaglen 15-mlynedd o welliannau i'r llwybrau teithio llesol.

## 4.5 Amcanion Llesiant Awdurdodau Lleol

Ystyrir mai llygredd aer yw'r cyfrannwr amgylcheddol mwyaf at faich afiechyd yn y DU. Mae pobl sydd eisoes yn dioddef o iechyd gwael, ac sy'n byw yn yr ardaloedd lle ceir yr ansawdd aer gwaethaf, yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan lygredd aer. Effeithir yn anghymesur ar gymunedau trefol tlotach. Nid yw'r effeithiau iechyd ond yn ymwneud ag effeithiau mwy amlwg ac uniongyrchol llygredd aer. Mae llygredd aer yn effeithio ar dyfiant cnydau ac yn cyfrannu at asideiddio dyfroedd mewndirol ac arfordirol. Gall hyn arwain at effeithiau pwysig ar y gadwyn fwyd.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig bod pob awdurdod lleol yn ymrwymo i sicrhau bod llygredd aer yn parhau i fod yn is na lefelau gwrthrychol. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y dylai awdurdodau lleol gynnwys rheoli ansawdd aer mewn strategaethau corfforaethol a chyffredinol i godi ei broffil a chyflawni camau gweithredu mewn modd integredig. I'r perwyl hwn, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn gweithredu'r ddelfryd o ddatblygu cynaliadwy yn eu gwaith ac yn gallu dangos i'r cyhoedd eu bod yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gosod amcanion llesiant ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn dangos y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r amcanion. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth yn sgil adolygiadau ac asesiadau o ansawdd aer lleol yn llywio llesiant lleol ac yn cael ei hymgorffori yn y cynllun llesiant lleol. Dylai hyn bwysleisio rôl yr awdurdod lleol o ran cyflawni aer glanach. Dylai anelu at godi proffil ansawdd aer gan gadw'r mater yn uchel ar ei restr o flaenoriaethau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i wella ansawdd aer mewn ffordd gorfforaethol ac amlddisgyblaethol gan eu galluogi i gynnwys ystyriaethau ansawdd aer mewn meysydd polisi ehangach – megis cynllunio defnydd tir, cynllunio trafnidiaeth, effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff, datblygu economaidd ac adfywio. Anogir awdurdodau lleol hefyd i geisio gweithio'n agosach gydag awdurdodau cyfagos – a thrwy wneud hynny gryfhau rôl grwpiau rhanbarthol.

Yn 2023 gwnaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion gyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028. Un o amcanion y cynllun hwn yw “cydweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.” Mae gan yr Awdurdod Lleol dîm Rheoli Carbon sydd wedi llwyddo i leihau allyriadau carbon yn lleol ac sydd bellach yn gweithio i leihau allyriadau ymhellach gyda'r nod o wneud y Cyngor yn garbon niwtral erbyn 2030 (yn unol â tharged Llywodraeth Cymru). Caiff y nod hwn ei roi ar waith drwy fentrau megis Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cerbydau ULEV Cyngor Sir Ceredigion a gyflwynwyd yn 2022 er mwyn cynyddu'r defnydd o gerbydau trydan drwy wella gynyddu’r mannau gwefru ledled y sir. Gallai mentrau o'r fath gael effaith hirdymor gadarnhaol ar ansawdd aer drwy leihau’r allyriadau o gerbydau yn lleol.

## 4.6 Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd

Mae paratoi Polisïau, Cynlluniau a Strategaethau Seilwaith Gwyrdd yn ofyniad newydd o dan Rifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru. Fe'i cydlynir gan Dîm Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu dull strategol a rhagweithiol wrth ymdrin â seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth a hynny drwy gynhyrchu rhestrau a mapiau diweddar o'r seilwaith gwyrdd a’r asedau a’r rhwydweithiau ecolegol presennol. Dylai asesiadau seilwaith gwyrdd o'r fath wneud defnydd amserol, pragmatig a chynhwysol o’r setiau data sy'n bodoli, a'r wybodaeth orau sydd ar gael, a hynny i ddatblygu adnodd tystiolaeth sy'n

seiliedig ar fapiau. Bydd gwneud hynny yn hwyluso dull rhagweithiol ac yn gwneud y mwyaf o’r cyfraniadau tuag at amcanion llesiant y Cyngor.

Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd yn cael ei ddefnyddio yng Ngheredigion i ddatblygu dull cadarn ar gyfer gwella bioamrywiaeth, cynyddu cydnerthedd ecolegol a gwella canlyniadau llesiant. Mae digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u cynnal yn y sir i lywio'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd. Roedd yr ymarferion ymgysylltu wedi ennyn llawer o ddiddordeb, ymatebion a syniadau. Mae allbynnau wedi'u coladu a'u crynhoi ac wedi nodi cyfleoedd strategol lle gellir defnyddio'r gwaith o adfer, cynnal a chadw, creu neu gysylltu nodweddion a swyddogaethau gwyrdd i sicrhau'r manteision mwyaf. Mae mapiau manwl ar gyfer trefi marchnad Ceredigion, er enghraifft, yn datgelu hyd a lled (a cholled) cloddiau a choetiroedd ac ati yn y trefi hyn a’r ardaloedd o'u cwmpas. Bydd colli cloddiau/gwrychoedd a choed dros gyfnod o amser yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer cynlluniau adfer / plannu coed yng Ngheredigion.

Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael i fonitro cyfres o rywogaethau a chynefinoedd allweddol, ac ymgorffori'r dangosyddion hyn yn eu Hadroddiadau Monitro Blynyddol. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddangos a fu cynnydd neu golled net mewn bioamrywiaeth, a bydd tueddiadau'n cael eu defnyddio i bennu blaenoriaethau ar gyfer cynllunio a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Bydd yr angen ar i ecosystemau, cynefinoedd a rhywogaethau addasu ar gyfer newid hinsawdd yn cael ei ystyried fel rhan o'r Asesiad o Seilwaith Gwyrdd.

Mae parciau, mannau agored, meysydd chwarae, coetiroedd, gwlyptiroedd, ymylon ffyrdd, rhandiroedd a gerddi preifat yn enghreifftiau o seilwaith gwyrdd. Cyfeirir yn aml at systemau draenio cynaliadwy, pantiau, gwlyptiroedd, afonydd, camlesi a'u glannau a chyrsiau dŵr eraill fel seilwaith glas. Mae mynediad i'r amgylchedd naturiol hwn, ac ymwneud ag ef, yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd cadarnhaol gan gynnwys gwella iechyd corfforol a meddyliol, a llai o risg o glefyd cardiofasgwlaidd a chyflyrau cronig eraill. Canfuwyd bod mynediad i seilwaith hamdden, megis parciau a meysydd chwarae, yn gysylltiedig â llai o risg o ordewdra ymysg pobl ifanc a mwy o weithgarwch corfforol. Yn yr un modd, gall gwelliannau i barciau gynyddu ymweliadau/defnydd a gweithgarwch corfforol plant a phobl hŷn. Mae byw ger mannau gwyrdd megis parciau a mannau agored eraill yn gallu gwella iechyd waeth beth fo'r dosbarth cymdeithasol.

Mae gwella mynediad at seilwaith a mannau gwyrdd hefyd yn cyfrannu at leihau’r

cyswllt â pheryglon amgylcheddol a llygredd aer, gwella ansawdd aer, lleihau effaith newid hinsawdd, amddiffyn rhag llifogydd ac erydu, a chynyddu cyfranogiad cymdeithasol ymysg oedolion hŷn.

# 5 Casgliad a Chamau Gweithredu Arfaethedig

## 5.1 Casgliadau o'r Data Monitro Newydd

Nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion yr un Ardal Rheoli Ansawdd Aer ac nid oes ganddo unrhyw ardaloedd sy'n agos at fynd yn groes i Amcanion y Strategaeth Ansawdd Aer. Ni ystyriwyd, felly, ei bod yn angenrheidiol datgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer na chwaith baratoi Strategaeth Ansawdd Aer Lleol / Rhanbarthol.

## 5.2 Casgliadau yn ymwneud â Datblygiadau Lleol Newydd

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau nad oes datblygiadau lleol newydd ar hyn o bryd y bydd angen eu hystyried yn fwy manwl, ac nad oes datblygiadau lleol a fydd yn arwain at unrhyw Asesiadau Manwl. Fel yn y cylchoedd adolygu ac asesu blaenorol, mae'r canlyniadau a adroddir yn yr adroddiad hwn yn dangos y cydymffurfir â'r holl safonau ac amcanion statudol o ran ansawdd aer yng Ngheredigion a hynny erbyn dyddiadau penodol ym mhob lleoliad (gan gynnwys y lleoliadau wrth ymyl y ffordd lle mae’r traffig mwyaf).

Nid yw’r gwaith monitro ac asesu newydd ar gyfer yr adroddiad hwn wedi datgelu unrhyw fannau yng Ngheredigion lle mae hylosgi tanwydd (mewn cerbydau modur, diwydiant neu eiddo domestig) neu allyriadau ffo yn achosi, neu'n debygol o achosi, problemau sylweddol o ran ansawdd yr aer. Mae'r adolygiad yn awgrymu nad oes problemau ansawdd aer sy'n gysylltiedig â thraffig yn y lleoliadau prysuraf wrth y ffyrdd ac yn nhrefi Ceredigion lle mae’r tagfeydd mwyaf. Nid oes diwydiannau mawr yn agos at ardaloedd poblog iawn yn y sir, a dim ond nifer fach o brosesau Rhan B a gweithfeydd hylosgi bach (yn y categori "risg isel" yn bennaf).

## 5.3 Casgliadau Eraill

I grynhoi, sir wledig yw Ceredigion gydag ychydig iawn o ddiwydiannau sy'n llygru'r aer. Nid yw'r rhestr hon o ddiwydiannau sy'n llygru'r aer wedi newid ers yr Adroddiad Cynnydd diwethaf ar gyfer Ceredigion. Traffig ffyrdd yw prif ffynhonnell llygredd aer yng Ngheredigion o hyd gyda nifer y cerbydau ar y ffyrdd yn cynyddu, ond mae’n parhau i fod yn isel o gymharu'n genedlaethol. Mae ansawdd aer yn parhau i gael ei fonitro yn rhai o’r

ardaloedd mwyaf sensitif lle mae'r tagfeydd mwyaf yng Ngheredigion. Pwrpas hyn yw gwirio cydymffurfiaeth a chadarnhau'r amcanestyniadau lleol a chenedlaethol. Mae monitro hefyd yn digwydd yn ôl yr angen i nodi unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn gweithgarwch diwydiannol, maint a chyfansoddiad y traffig, cynllun y ffyrdd, a datblygiadau lleol newydd. Bydd hyn o ganlyniad i bryderon a cheisiadau lleol ac unrhyw ffactorau eraill sy'n cyfrannu at lygredd aer yn y sir. Mae monitro ar gyfer nitrogen deuocsid gan ddefnyddio tiwbiau tryledu yn cael ei ddefnyddio o bryd i'w gilydd mewn ymarferion i nodi unrhyw fannau "problemus" newydd sy'n dod i'r amlwg parthed llygredd aer. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n benodol ar ysgolion, safleoedd diwydiannol, ardaloedd preswyl, busnesau amrywiol, modurdai, y rhwydwaith rheilffyrdd, gorsafoedd bysiau, siopau sychlanhau a siopau paent, ac yng nghyffiniau ffyrdd ar newydd wedd, ac ati. Mae sampleri goddefol yn rhad a gellir eu defnyddio mewn niferoedd cymharol fawr i ddal yr ardal a'i chydraniad angenrheidiol er mwyn mapio'r ardal yn effeithiol a nodi ffynonellau posibl o lygredd. Mae swmp traffig y sir, hyd yn oed yn y dref lle mae'r tagfeydd mwyaf (Aberystwyth), yn gymharol fach o gymharu â rhannau eraill o'r wlad, ac nid yw'n agos at y diffiniad o draffig trwm a geir yn y Canllawiau. Mae cymhareb y cerbydau nwyddau trwm i gyfanswm nifer y cerbydau hefyd yn isel yng Ngheredigion oherwydd diffyg diwydiant.

## 5.4 Camau Gweithredu Arfaethedig

Nid yw'r adolygiad ansawdd aer hwn ar gyfer Ceredigion wedi nodi'r angen i symud ymlaen i asesiadau manylach ar gyfer unrhyw un o'r llygryddion aer â blaenoriaeth. Mae'r Dangosyddion Ansawdd Aer Cenedlaethol yn isel iawn ar gyfer nitrogen deuocsid a $PM_{10}$ yng Ngheredigion – ymysg yr isaf yng Nghymru. Bydd monitro yn digwydd yn ôl yr angen mewn unrhyw fannau problemus sy'n dod i'r amlwg neu o ganlyniad i unrhyw bryderon neu ddatblygiadau newydd. Bydd y gwaith monitro yn parhau yn ein lleoliad yn Llambed gan mai hon yw'r ardal â'r lefelau uchaf o nitrogen deuocsid, ond disgwylir i'r lefelau yn yr ardal hon ac mewn ardaloedd eraill aros o fewn y safonau cyfreithiol.

Fel y mae ar hyn o bryd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf nid yw nitrogen deuocsid yn y lleoliadau "problemus" wedi mynd yn uwch na'r safonau cyfreithiol mewn unrhyw leoliad (gan gynnwys wrth ymyl y ffordd a'r lleoliadau y disgwylir iddynt fod y gwaethaf). Bydd monitro yn parhau yn y lleoliadau hyn yn y dyfodol i sicrhau y cydymffurfir yn barhaus â'r safonau mwyaf llym. Bydd yr Adroddiad Cynnydd nesaf ar Ansawdd Aer yng Ngheredigion yn cael ei baratoi a'i gyflwyno ym mis Medi 2025.

# Cyfeiriadau


1. Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010
2. Cynllun y DU ar gyfer Mynd i'r Afael â Chrynodiadau Nitrogen Deuocsid Wrth Ymyl y Ffordd, Gorffennaf 2017
3. Canllawiau Polisi Interim Cymru ar Reoli Ansawdd Aer Lleol, Mawrth 2016: http://gov.wales/docs/desh/publications/160303-policy-guidance-en.pdf
4. Canllawiau Polisi Cymru, LAQM.PG09 (W), Ebrill, 2009-07-17 – Llywodraeth Cymru LAQM.PG (W) 17
5. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) (2018) 'Rheoli Ansawdd Aer Lleol: Canllawiau Technegol (TG16)'. https://laqm.DEFRA.gov.uk/technical-guidance/
6. Canllawiau Technegol LAQM. TG (09), Chwefror, 2009-07-17
7. Canllawiau Technegol LAQM. TG(03)
8. Deddf yr Amgylchedd 1995
9. Y Strategaeth Ansawdd Aer, Gorffennaf 2007
10. Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru), 2000
11. Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru), 2002
12. Dangosyddion Ansawdd Aer Cenedlaethol i Gymru
14. AQEG (2007) *Trends in Primary Nitrogen Dioxide in the UK:* www.defra.gov.uk
15. D. Laxen a B. Marner, *Analysis of the Relationship between 1-hour and annual mean nitrogen dioxide at UK roadside and kerbside monitoring sites.*
16. A Cook, *Analysis of the relationship between annual mean nitrogen dioxide and exceedances of the 1-hour mean.*
17. J. Abbott, *Review of pollutant specific guidance for industrial and domestic emissions,* 2002.
18. J. Abbott, Canllaw Technegol, *Screening Assessment for Biomass Burners*, Gorffennaf 2008 (*http://uk-air.defra.gov.uk/reports/cat18/08062615199 methods.pdf*).
19. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015 *(http://gov.wales/topics/people-andcommunities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?skip=1&lang=cy)*
20. Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 *https://www.ceredigion.gov.uk/media/ztabzsau/cynllun-datblygu-lleol-cdll-ceredigion-cyfrol-1-strategaeth-a-pholis-au-cymraeg.pdf*
21. Canllawiau Polisi Cynllunio *(http://gov.wales/topics/planning/policy/?skip=1&lang=cy)*
22. Cynllun Ansawdd Aer ar gyfer Nitrogen Deuocsid, 2015 *https://www.gov.uk/government/collections/airquality-plan-for-nitrogen-dioxide-no2-in-uk-2015*
23. Cymorth Technegol, *http://laqm.defra.gov.uk/helpdesks.html*
24. Cynllun Aer Glân i Gymru – *https://llyw.cymru/cynllun-aer-glan-cymru-aer-iach-cymru*
25. Llywodraeth Cymru, 2023. Canllawiau i Gyd-Bwyllgorau Corfforedig ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, Fersiwn 2
26. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, 2023. Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028
27. Cyngor Sir Ceredigion, 2022. Strategaeth a Chynllun Gweithredu ULEV Cyngor Sir Ceredigion 2022.


# Atodiadau

Atodiad A: Canlyniadau Monitro Misol y Tiwbiau Tryledu

Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol

Atodiad C: Data Monitro Ansawdd Aer - Sicrhau/Rheoli Ansawdd

# Atodiad A: Canlyniadau Monitro Misol y Tiwbiau Tryledu

**Tabl A.1 – Canlyniadau Misol Llawn y Tiwbiau Tryledu ar gyfer 2023 (µg/m$^3$)**

| Safle a chyfeirnod y Tiwbiau | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans X (i’r dwyrain) | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans Y (i’r gogledd) | Ion | Chw | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Cymedr Blynyddol: Data amrwd | Cymedr Blynyddol: Wedi’i addasu ar gyfer tuedd a'i flwyddoli | Cymedr Blynyddol: Pellter wedi'i gywiro i'r cysylltiad agosaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CERE/23A/NA10S7 (Ffordd y Môr, Aberystwyth) | 258470 | 281700 | 17.7 | 27.4 | 21.6 | 20.1 | 19.5 | 20.1 | 12.2 | 14.1 | 20.6 | 23.3 | 18.5 | 17.3 | 19.4 | 15.1 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S4 (Stryd Thespis, Aberystwyth) | 258630 | 281800 | 18.4 | 27.8 | 18.8 | 17.2 | 19.0 | 21.2 | 10.1 | 13.4 | 21.0 | 22.4 | 18.8 | 14.5 | 18.6 | 14.5 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S9 (Gorsaf Reilffordd, Aberystwyth) | 258500 | 281620 | 18.8 | 26.6 | 19.5 | 15.4 | 19.5 | 17.6 | 14.0 | 15.1 | 19.9 | 17.4 | 16.4 | 17.9 | 18.2 | 14.2 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S12 (Morrisons, Aberystwyth) | 259590 | 280570 | 15.6 | 18.9 | | 12.9 | 15.5 | 15.4 | 11.2 | 14.6 | 16.9 | 16.4 | 16.3 | 15.3 | 15.4 | 12.0 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S13 (Dan Dre, Aberystwyth) | 258379 | 281519 | 20.6 | 28.9 | 19.3 | 19.7 | 19.5 | 20.2 | 16.7 | 14.9 | 21.0 | 18.3 | 17.8 | 21.1 | 19.8 | 15.5 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S1 (Stryd Fawr, Llambed) | 257790 | 248140 | 20.1 | 23.3 | 13.2 | 15.6 | 15.3 | | 22.2 | 21.0 | | 28.0 | 26.7 | 24.0 | 20.9 | 16.3 | Amh. |

| Safle a chyfeirnod y Tiwbiau | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans X (i'r dwyrain) | Cyfeirnod Grid Arolwg Ordnans Y (i'r gogledd) | Ion | Chw | Maw | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Cymedr Blynyddol: Data amrwd | Cymedr Blynyddol: Wedi'i addasu ar gyfer tuedd a'i flwyddoli | Cymedr Blynyddol: Pellter wedi'i gywiro i'r cysylltiad agosaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CERE/23A/NA10S11 (Stryd Fawr, Aberteifi) | 217790 | 246180 | 15.4 | 21.8 | 12.0 | 15.3 | 18.2 | 17.1 | 11.1 | 11.1 | 15.4 | 17.1 | 13.9 | 16.6 | 15.4 | 12.0 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S5 (Stryd y Cei, Aberteifi) | 217661 | 245959 | 9.0 | 11.3 | 5.9 | 6.8 | 6.2 | 6.0 | 5.2 | 5.8 | 8.3 | 10.9 | 8.5 | 9.3 | 7.8 | 6.1 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S2 (Pendam) | 272240 | 283330 | 5.0 | 2.4 | 1.9 | 5.0 | 3.5 | 1.6 | 1.7 | 2.4 | 3.8 | 2.4 | 3.2 | | 3.0 | 2.3 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S6 (Talybont) | 265462 | 289275 | 21.4 | 24.8 | 20.4 | 21.9 | 18.9 | 23.2 | 14.7 | 20.5 | 20.4 | 20.8 | 22.2 | 19.4 | 20.7 | 16.2 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S15 (Stryd Fawr, Aberystwyth) | 258230 | 281631 | 11.0 | 16.9 | 10.0 | 10.1 | 11.2 | 12.8 | 7.7 | 8.4 | 13.2 | 16.4 | 12.3 | 10.8 | 11.7 | 9.2 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S14 (Llanon) | 251574 | 267060 | 8.7 | 14.9 | 10.9 | 10.2 | 11.2 | 13.6 | 8.5 | 9.4 | 10.9 | 10.5 | 8.2 | 10.9 | 10.7 | 8.3 | Amh. |
| CERE/23A/NA10S10 (Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth) | 259514 | 281258 | 15.6 | 25.1 | 17.3 | 16.9 | 14.3 | 17.6 | 10.5 | 11.2 | 19.7 | 21.2 | | 14.2 | 16.7 | 13.0 | Amh. |

☒ **Mae pob data gwallus wedi'i dynnu o set ddata'r tiwbiau tryledu $NO_2$ a gyflwynir yn Nhabl A.1**

☒ **Blwyddolwyd lle'r oedd y casglu data yn <75% a >25% yn unol â Nodyn Technegol 22 y canllawiau rheoli ansawdd aer.**

☐ **Defnyddiwyd ffactor addasu lleol ar gyfer tuedd.**

☒ **Defnyddiwyd ffactor addasu cenedlaethol ar gyfer tuedd.**

☒ **Lle bo hynny'n berthnasol, mae pellter y data wedi'i gywiro yn y golofn olaf ar gyfer y cysylltiad.**

☒ **Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau bod holl ddata tiwbiau tryledu 2023 wedi'i uwchlwytho i'r System Mewnbynnu Data Tiwbiau Tryledu**.

**Nodiadau:**

Dangosir **mewn print trwm** achosion o fynd dros yr amcan cyfartalog blynyddol o 40µg/m3 ar gyfer $NO_2$.

Mae cymedrau blynyddol $NO_2$ sy'n fwy na 60µg/m3, gan fynd yn uwch o bosib nag amcan cymedr $NO_2$ dros 1 awr, yn cael eu dangos mewn **print trwm ac wedi'u tanlinellu.**

Gweler Atodiad C am fanylion ar addasu ar gyfer tuedd a blwyddoli.

# Atodiad B: Crynodeb o Reoli Ansawdd Aer Lleol

## Pwrpas Adroddiad Cynnydd Blynyddol

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion y broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol fel y'i nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995 a chanllawiau cysylltiedig y llywodraeth. Mae'r broses Rheoli Ansawdd Aer Lleol yn gosod rhwymedigaeth ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu ansawdd aer yn rheolaidd yn eu hardaloedd ac i benderfynu a yw'r amcanion ansawdd aer yn cael eu cyflawni ai peidio. Pan fydd gormodiant yn digwydd, neu'n debygol o ddigwydd, rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer a pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer o fewn 18 mis i'r datganiad. Bydd hwn yn nodi'r mesurau y mae'n bwriadu eu rhoi ar waith i roi sylw i'r amcanion. Yna dylid adolygu a diweddaru cynlluniau gweithredu lle bo angen a hynny o leiaf bob pum mlynedd.

Ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn disodli'r holl ofynion adrodd ffurfiol eraill. Mae ganddo ddiben clir iawn sef diweddaru'r cyhoedd ynghylch ansawdd aer, gan gynnwys pa gamau parhaus sy'n cael eu cymryd yn lleol i'w wella os oes angen.

## Amcanion Ansawdd Aer

Mae'r amcanion ansawdd aer sy'n gymwys i Reoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru wedi'u nodi yn Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000, Rhif 1940 (Cymru 138), Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002, Rhif 3182 (Cymru 298), ac maent i'w gweld yn Nhabl B.1.

Mae'r tabl yn dangos yr amcanion mewn unedau o ficrogramau fesul metr ciwbig $\mu g/m^3$ (miligramau fesul metr ciwbig, $mg/m^3$ ar gyfer carbon monocsid) gyda nifer yr achosion o ormodiant a ganiateir ym mhob blwyddyn, lle bo'n berthnasol.

**Tabl B.1 – Amcanion ansawdd aer sydd wedi'u cynnwys mewn rheoliadau at ddiben Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru**

| Llygrydd | Amcan ansawdd aer: Crynodiad | Amcan ansawdd aer: wedi'i fesur ar sail | Cyflawni erbyn |
|---|---|---|---|
| **Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)** | 200µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 18 gwaith y flwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2005 |
| **Nitrogen Deuocsid ($NO_2$)** | 40µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2005 |
| **Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)** | 50µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2010 |
| **Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$)** | 40µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2010 |
| **Sylffwr Deuocsid ($SO_2$)** | 350µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 24 gwaith y flwyddyn | Cymedr 1 awr | 31.12.2004 |
| **Sylffwr Deuocsid ($SO_2$)** | 125µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 3 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24 awr | 31.12.2004 |
| **Sylffwr Deuocsid ($SO_2$)** | 266µg/m$^3$, dim gormodiant mwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 15 munud | 31.12.2005 |
| **Bensen** | 16.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol rhedegol | 31.12.2003 |
| **Bensen** | 5µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2010 |
| **1,3 Biwtadïen** | 2.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol rhedegol | 31.12.2003 |
| **Carbon Monocsid** | 10.0mg/m$^3$ | Uchafswm cymedr 8-awr rhedegol dyddiol | 31.12.2003 |
| **Plwm** | 0.25µg/m$^3$ | Cymedr blynyddol | 31.12.2008 |

# Atodiad C: Data Monitro Ansawdd Aer SA/RhA

## Sicrhau/Rheoli Ansawdd o ran Monitro Tiwbiau Tryledu

### Ffactorau Addasu ar gyfer Tuedd yn y Tiwbiau Tryledu

Dadansoddwr y cyflenwad tiwbiau tryledu oedd SOCOTEC Didcot, y dull oedd 50% TEA mewn aseton a'r ffactor addasu ar gyfer tuedd a ddefnyddiwyd oedd ffactor cyffredinol 2023 o 0.78 (Rhif Fersiwn y Daenlen: 06/24) a ddaeth o gronfa ddata DEFRA o ffactorau addasu cenedlaethol ar gyfer tuedd [https://laqm.defra.gov.uk/bias-adjustment-factors/national-bias.html].

**National Diffusion Tube Bias Adjustment Factor Spreadsheet** — Spreadsheet Version Number: 06/24

Follow the steps below **in the correct order** to show the results of **relevant** co-location studies
Data only apply to tubes exposed monthly and are not suitable for correcting individual short-term monitoring periods
Whenever presenting adjusted data, you should state the adjustment factor used and the version of the spreadsheet
This spreadsheet will be updated every few months: the factors may therefore be subject to change. This should not discourage their immediate use.

This spreadsheet will be updated at the end of September 2024

LAQM Helpdesk Website

The LAQM Helpdesk is operated on behalf of Defra and the Devolved Administrations by Bureau Veritas, in conjunction with contract partners AECOM and the National Physical Laboratory.

Spreadsheet maintained by the National Physical Laboratory. Original compiled by Air Quality Consultants Ltd.

| Step 1: | Step 2: | Step 3: | Step 4: | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Select the Laboratory that Analyses Your Tubes from the Drop-Down List | Select a Preparation Method from the Drop-Down List | Select a Year from the Drop-Down List | Where there is only one study for a chosen combination, you should use the adjustment factor shown with caution. Where there is more than one study, use the overall factor[3] shown in blue at the foot of the final column. | | | | | | | |
| If a laboratory is not shown, we have no data for this laboratory. | If a preparation method is not shown, we have no data for this method at this laboratory. | If a year is not shown, we have no data[2] | If you have your own co-location study then see footnote[4]. If uncertain what to do then contact the Local Air Quality Management Helpdesk at LAQMHelpdesk@bureauveritas.com or 0800 0327953 | | | | | | | |
| Analysed By[1] | Method (To undo your selection, choose (All) from the pop-up list) | Year[5] (To undo your selection, choose (All)) | Site Type | Local Authority | Length of Study (months) | Diffusion Tube Mean Conc. (Dm) ($\mu g/m^3$) | Automatic Monitor Mean Conc. (Cm) ($\mu g/m^3$) | Bias (B) | Tube Precision[6] | Bias Adjustment Factor (A) (Cm/Dm) |
| Socotec Didcot | 50% TEA in acetone | 2023 | R | Dacorum Borough Council | 11 | 21 | 18 | 12.0% | P | 0.89 |
| Socotec Didcot | 50% TEA in acetone | 2023 | R | Derry City And Strabane District Council | 10 | 33 | 34 | -3.8% | G | 1.04 |
| Socotec Didcot | 50% TEA in acetone | 2023 | UB | Derry City And Strabane District Council | 10 | 11 | 8 | 37.1% | P | 0.73 |
| Socotec Didcot | 50% TEA in acetone | 2023 | R | Horsham District Council | 12 | 21 | 16 | 31.4% | G | 0.76 |
| Socotec Didcot | 50% TEA in acetone | 2023 | R | Waverley Borough Council | 12 | 24 | 18 | 31.9% | G | 0.76 |
| Socotec Didcot | 50% TEA in acetone | 2023 | R | Waverley Borough Council | 12 | 26 | 19 | 35.8% | G | 0.74 |
| SOCOTEC Didcot | 50% TEA in acetone | 2023 | | Overall Factor[3] (34 studies) | | | | Use | | 0.78 |

### Ffactor o'r Astudiaethau Cydleoli Lleol

Nid oedd data cydleoli ar gael.

### Trafod y Ffactor y Dewisir i'w Ddefnyddio

Nid oedd cyfle ar gyfer astudiaeth cydleoli felly defnyddiwyd y ffactor addasu cenedlaethol o gronfa ddata DEFRA o ffactorau addasu cenedlaethol ar gyfer tuedd [https://laqm.defra.gov.uk/bias-adjustment-factors/national-bias.html].

### Sicrhau/Rheoli Ansawdd o ran Monitro Tiwbiau Tryledu

Darperir data gan DEFRA ar gyfer dadansoddi tiwbiau tryledu $NO_2$ gyda chywirdeb labordy https://laqm.defra.gov.uk/diffusion-tubes/precision.html

Fel y cynghorwyd gan DEFRA, at ddibenion Rheoli Ansawdd Aer Lleol, mae cywirdeb tiwbiau tryledu labordy wedi'i rannu'n ddau gategori, "Da" a "Gwael" fel a ganlyn: ystyrir bod gan diwbiau gywirdeb "da" os yw cyfernod amrywio tiwbiau tryledu dyblyg neu

driphlyg yn llai nag 20% am wyth neu ragor o gyfnodau yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfernod amrywio cyfartalog yr holl gyfnodau monitro yn llai na 10%. Ystyrir bod gan diwbiau gywirdeb "gwael" lle mae cyfernod amrywio pedwar cyfnod neu ragor yn fwy nag 20% a/neu mae'r cyfernod amrywio cyfartalog yn fwy na 10%.

Mewn perthynas â'r canlyniadau cryno y mae DEFRA yn eu darparu, cynghorir fel a ganlyn:

*“Sylwer y gall perfformiad labordy newid o un flwyddyn i'r llall. Felly, wrth asesu perfformiad labordy gan ddefnyddio'r canfyddiadau* [a ddarperir yn y canlyniadau cryno], *dylid ystyried cyfran y canlyniadau lleoliad cywirdeb "gwael", nid dim ond presenoldeb neu absenoldeb canlyniadau gwael.*

### Blwyddoli Tiwbiau Tryledu

Roedd pob lleoliad monitro Tiwbiau Tryledu a oedd yn berchen i Gyngor Sir Ceredigion wedi casglu data o 75% felly nid oedd angen blwyddoli'r data monitro. Yn ogystal, nid oes angen blwyddoli ar gyfer unrhyw safle lle'r oedd y data a gasglwyd yn llai na 25%.

### Ffactorau Addasu ar gyfer Tuedd yn y Tiwbiau Tryledu

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithredu ffactor addasu ar gyfer tuedd cenedlaethol o 0.76 i ddata monitro 2023. Cyflwynir crynodeb o'r ffactorau addasu ar gyfer tuedd a ddefnyddiwyd gan Gyngor Sir Ceredigion dros y pum mlynedd diwethaf yn Nhabl C.1.

**Tabl C.1 – Ffactor Addasu ar gyfer Tuedd**

| Blwyddyn | Lleol neu Genedlaethol | Os yn genedlaethol, fersiwn y daenlen genedlaethol | Ffactor Addasu |
|---|---|---|---|
| 2023 | Cenedlaethol | 06/24 | 0.78 |
| 2022 | Cenedlaethol | 09/23 | 0.76 |
| 2021 | Cenedlaethol | 06/22 | 0.78 |
| 2020 | Cenedlaethol | 06/21 | 0.76 |
| 2019 | Cenedlaethol | 09/20 | 0.75 |
| 2018 | Cenedlaethol | 06/19 | 0.76 |
| 2017 | Cenedlaethol | 09/18 | 0.77 |

**Gostyngiad $NO_2$ gyda phellter o'r ffordd**

Nid oedd angen cywiro pellter mewn unrhyw leoliadau monitro $NO_2$ yng Ngheredigion yn ystod 2023.

**Tabl C.2 – Crynodeb Blwyddoli (crynodiadau wedi'u cyflwyno mewn μg/m$^3$)**

Nid oedd angen blwyddoli ar gyfer data 2023 oherwydd casglwyd digon o ddata.

## Tabl E.1 – Matrics Effaith

| Categori | Graddfa Effaith: Dim | Graddfa Effaith: Bach | Graddfa Effaith: Canolig | Graddfa Effaith: Mawr |
|---|---|---|---|---|
| Monitro Awtomatig – Cipio Data (%) | Cipio mwy na 75% o ddata | Cipio 50 i 75% o ddata | Cipio 25 i 50% o ddata | Cipio llai na 25% o ddata |
| Monitro Awtomatig – Cyfundrefn SA/RhA | Cadw at y gofynion fel y'u diffinnir yn LAQM.TG16 | Calibradu arferol yn digwydd yn aml ond nid yn ôl y drefn arferol. Cynnal archwiliadau ochr yn ochr â rhaglenni gwasanaethu a chynnal a chadw | Calibradu arferol yn digwydd yn anaml a chadw at drefniadau gwasanaethu a chynnal a chadw. Ni chyflawnwyd archwiliad | Calibradu arferol heb ddigwydd o fewn cyfnod estynedig (e.e. 3 i 4 mis). Amharu ar y drefn gwasanaethu a chynnal a chadw ac ni chyflawnwyd archwiliad |
| Monitro Goddefol – Cipio Data (%) | Cipio mwy na 75% o ddata | Cipio 50 i 75% o ddata | Cipio 25 i 50% o ddata | Cipio llai na 25% o ddata |
| Monitro Goddefol – Ffactor Addasu ar gyfer Tuedd | Addasu ar gyfer tuedd wedi'i wneud yn ôl yr arfer | Effaith <25% ar y nifer arferol o astudiaethau cydleoli sy'n addasu ar gyfer tuedd (2020 yn erbyn 2019) | Effaith 25-50% ar y nifer arferol o astudiaethau sy'n addasu ar gyfer tuedd (2020 yn erbyn 2019) | Effaith > 50% ar y nifer arferol o astudiaethau sy'n addasu ar gyfer tuedd (2020 yn erbyn 2019) a/neu astudiaethau addasu ar gyfer tuedd gymhwysol nad ystyrir yn gynrychioliadol o'r gyfundrefn leol |
| Monitro Goddefol – Cadw at y Dyddiadau Newid | Cadw at galendr cysylltiad tiwbiau tryledu DEFRA | Tiwbiau wedi'u gadael allan am ddau gyfnod cysylltiad | Tiwbiau wedi'u gadael allan am dri chyfnod cysylltiad | Tiwbiau wedi'u gadael allan am fwy na thri chyfnod cysylltiad |
| Monitro Goddefol – Storio Tiwbiau | Tiwbiau'n cael eu storio yn unol â chanllawiau labordy a'u dadansoddi'n brydlon | Tiwbiau'n cael eu storio'n hwy nag arfer ond cadw at ganllawiau labordy | Methu storio tiwbiau yn unol â chanllawiau labordy ond eu dadansoddi cyn y dyddiad dod i ben | Tiwbiau'n cael eu storio mor hir fel nad oedd modd eu dadansoddi cyn y dyddiad dod i ben. Methu defnyddio'r data |
| Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer – Gweithredu Mesur | Heb ei effeithio | Oedi byr (<6 mis) wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu newydd, ond mae'n mynd rhagddo | Oedi hir (>6 mis) wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu newydd, ond mae'n mynd rhagddo | Dim cynnydd wrth datblygu Cynllun Gweithredu newydd |
| Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer – Datblygu un newydd | Heb ei effeithio | Oedi byr (<6 mis) wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu newydd, ond mae'n mynd rhagddo | Oedi hir (>6 mis) wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu newydd, ond mae'n mynd rhagddo | Dim cynnydd wrth datblygu Cynllun Gweithredu newydd |

# Rhestr Termau

| Talfyriad | Disgrifiad |
|---|---|
| ACB | Adroddiad Cynnydd Blynyddol ansawdd aer |
| ARhAA/ AQMA | Ardal Rheoli Ansawdd Aer – Ardal lle mae crynodiadau llygryddion aer yn uwch / yn debygol o fod yn uwch na'r amcanion ansawdd aer perthnasol. Mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer yn cael eu datgan ar gyfer llygryddion ac amcanion penodol |
| AURN | *Automatic Urban and Rural Network* (rhwydwaith monitro ansawdd aer y DU) |
| CGAA/ APR | Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer – Disgrifiad manwl o fesurau, canlyniadau, dyddiadau cyflawni a dulliau gweithredu, gan ddangos sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cyflawni gwerthoedd y terfynau ansawdd aer |
| DEFRA | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| $NO_2$ | Nitrogen Deuocsid |
| $NO_x$ | Ocsidau Nitrogen |
| $PM_{10}$ | Deunydd gronynnol a gludir yn yr aer â diamedr aerodynamig o 10µm (micrometrau neu ficronau) neu lai |
| $PM_{2.5}$ | Deunydd gronynnol a gludir yn yr aer â diamedr aerodynamig o 2.5µm neu lai |
| RhAALl/ LAQM | Rheoli'r Ansawdd Aer yn Lleol |
| SA/RhA (QA/QC) | Sicrhau Ansawdd a Rheoli Ansawdd |
| $SO_2$ | Sylffwr Deuocsid |